Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University L

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 30 Tachwedd 2018** am 9.00 am yn 1887, Plas Coch, Wrecsam.

**Presennol**

Mr Paul Barlow
Mrs Laura Gough
Mr Angus Hamill-Stewart
Mr Colin Heron
Yr Athro Maria Hinfelaar
Mr Kieran Irwin
Mrs Celia Jenkins *(yn bresennol ar gyfer eitemau 18.28 i 18.37)*
Yr Athro Sandra Jowett
Mr Paul McGrady
Dr Jayne Mitchell
Mrs Judy Owen
Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)
Mr Lee Robinson
Dr Colin Stuhlfelder *(yn bresennol ar gyfer eitemau 18.28 i 18.37)*
Mr David Subacchi
Mrs Caroline Whiteley *(yn bresennol ar gyfer eitemau 18.28 i 18.38)*

**Swyddogion:**
Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Cyllid) (eitem 18.31 ymlaen)*
Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol*)
Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithrediadau*) *(eitem 18.31 ymlaen)*
Yr Athro Claire *Taylor (Dirprwy Is-ganghellor) (eitem 18.31 ymlaen)*
Dr Aulay Mackenzie *(PVC Partnerships) (yn bresennol ar gyfer eitemau 18.31 i 18.38)*

**Ymddiheuriadau:**
Mr Askar Sheibani
Mr Barrie Jones

**Yn bresennol:** Mrs Val Butterworth (Clerc y Bwrdd)

| | | |
|---|---|---|
| **18.28** | **Croeso ac ymddiheuriadau** | |
| | Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.<br><br>Croesawyd Mrs Whiteley i'w chyfarfod Bwrdd cyntaf. | |
| **18.29** | **Datgan buddiannau** | |
| | Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant yn unrhyw eitemau ar yr agenda. | |
| **18.30** | **Aelodaeth** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ac argymhellion gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu.<br><br>**18.30.01 Cadeirydd y Bwrdd**<br>*Gadawodd Ms Penlington y cyfarfod tra bo'i phenodiad yn cael ei drafod.* | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO ailbenodi Ms Penlington am ail gyfnod yn y swydd a CHYMERADWYO ei hailbenodiad fel Cadeirydd y Bwrdd hyd at 31 Mawrth 2022.<br><br>**18.30.02 Is-gadeirydd y Bwrdd**<br>*Gadawodd Mr Paul Barlow y cyfarfod tra bo'r eitem hon yn cael ei thrafod.*<br><br>Yn dilyn proses enwebu roedd Mr Barlow wedi'i enwebu a'i eilio ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO penodi Mr Paul Barlow yn Is-gadeirydd y Bwrdd, gan nod y byddai ei gyfnod yn y swydd yn ailddechrau.<br><br>**18.30.03 Chwilio am aelodaeth**<br>Cyflwynodd y Clerc ddiweddariad i'w aelodau ynghylch y chwilio am lywodraethwr newydd i lenwi'r sedd wag gyfredol. Derbyniwyd ceisiadau o safon uchel iawn.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.31** | **Cofnodion** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2018.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>Bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod. | |
| **18.32** | **Materion yn codi** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.<br><br>**Adroddwyd:**<br><br>**18.32.01 Adroddiad yr Is-ganghellor (cofnod 18.07)**<br>Cyflwynwyd diweddariad i'r aelodau ynghylch y cyhoeddiad yn y gyllideb am Fargen Twf Gogledd Cymru. Roedd Canghellor y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi £120m o gyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i Fargen Twf Gogledd Cymru a byddai hyn yn cael cyllid cyfatebol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn gadael bwlch yn y cyllid i alluogi cwblhau pob un o'r 16 prosiect yn y Fargen Twf. Trefnwyd cyfarfod ar 7 Rhagfyr i drafod y ffordd ymlaen.<br><br>Yn y cyfamser cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cyfarwyddwyr Cyllid y brifysgol a phartneriaid coleg i drafod modelau potensial ar gyfer taliadau llog pob prosiect. Roeddynt wedi dod i safiad cyffredin a disgwylir i'r costau llog fod yn isel ac yn gyfrannol i brosiect pob sefydliad.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.33** | **Yr Undeb Myfyrwyr** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad gan Lywydd yr Undeb Myfyrwyr.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |

| | | |
|---|---|---|
| **18.34** | **Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol drafft** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2018.<br>(ii) Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2017/18<br>(iii) Adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2017/18<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid y datganiadau ariannol a thynnir sylw at brif bwyntiau'r drafodaeth isod.<br>(i) Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol ers i'r datganiadau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Chyllid a Strategaeth.<br>(ii) Roedd y gwarged gweithredol cyfrifyddu yn £1.01m gyda gwarged net o £412k ar ôl costau pensiwn. Roedd y rhesymau am y gwahaniaeth rhwng yr alldro a ragfynegwyd a'r gwir sefyllfa wedi'i ystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a Chyllid.<br>(iii) Balans arian parod y grŵp oedd £4.1m ar ddiwedd y flwyddyn, a oedd yn well na'r sefyllfa a ragfynegwyd.<br>(iv) Roedd cronfeydd wrth gefn y Brifysgol wedi cynyddu i £30m o'i gymharu gyda £16.7m yn 2015/16; roedd hyn yn bennaf oherwydd enillion actiwaraidd o ran prisiad y cynllun pensiwn.<br>(v) Caewyd Campws Llundain ac is-gwmni Optic Glyndŵr. Nid oedd Pentref Myfyrwyr Wrecsam yn cael ei chydnabod yn natganiadau 2017/18 gan fod y broses gaffael wedi'i chwblhau ar ôl 31 Gorffennaf 2018.<br>(vi) Roedd Glyndŵr Innovations Ltd (GIL) wedi gwneud colled, a oedd yn ymwneud yn rhannol â'r newidiadau a wnaed y flwyddyn flaenorol i gymhwyso gwir gost ei weithgareddau yn erbyn ei gyllideb, ond hefyd oherwydd nifer o gontractau a ddyfarnwyd yn hwyrach na'r disgwyl a rhai nad oeddynt wedi'u gwireddu. Fodd bynnag, ers diwedd y flwyddyn ariannol dyfarnwyd dau gontract mawr i GIL a grant gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn dod i gyfanswm o £6.8m. Nodwyd y byddai angen rheoli prosiectiau a chostau'n gadarn, yn enwedig y rhai ag ymrwymiadau Ewropeaidd. Roedd rheoli prosiect penodol wedi'i gynnwys yn y grant Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>(vii) Roedd Gwyddoniaeth Gogledd Cymru wedi dangos colled bach cytunedig oherwydd cymryd les tymor byr ar safle canol y dref tra'n aros am ganlyniad y cais Cronfa Ysbrydoli Gwyddoniaeth. Croesawyd adborth gan y Gronfa Ysbrydoli Gwyddoniaeth, ac roedd cyfarfod i'w gynnal gyda chynrychiolwyr y Gronfa ar 4 Rhagfyr. Rhagwelwyd y byddai penderfyniad yn cael ei wneud cyn y Nadolig.<br>(viii) Roedd y Brifysgol wedi darparu llythyrau i Fyrddau'r ddau is-gwmni i warantu ei chefnogaeth barhaus i'r ddau gwmni. Byddai'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn parhau i fonitro perfformiad ariannol y cwmnïau yn ystod 2018/19.<br>(ix) Cafodd awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid a'r Pwyllgor Archwilio i wella'r adroddiad blynyddol eu cynnwys yn y fersiwn derfynol a gyflwynwyd.<br>(x) Roedd yr Archwilwyr wedi dynodi y byddent yn cyflwyno barn archwilio diamod.<br>(xi) Nodwyd ei bod yn ofynnol cyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol wedi'u cymeradwy erbyn 30 Tachwedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddai'r gofyniad hwn yn cael ei fodloni.<br><br>**18.34.01 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2017/18**<br>Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio adroddiad y Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at farn yr Archwilwyr Allanol fel yr adroddwyd yn eu llythyr rheoli at y Pwyllgor. Roedd KPMG wedi gwneud tri argymhelliad o ran gweithredu gan reolwyr, a byddai'r Pwyllgor | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn monitro bod y rhain yn cael eu gweithredu. Cadarnhawyd bod gan y Pwyllgor y grym i wahodd perchnogion argymhellion i'r cyfarfod am drafodaeth lle bo gweithred reoli yn gysylltiedig ag archwiliad mewnol neu archwiliad allanol ddim yn cael ei weithredu mewn modd amserol. Hyd yma roedd y tîm Gweithredol wedi ymateb yn dda i'r gweithredoedd rheoli.<br><br>Roedd y Pwyllgor wedi'i blesio yn dilyn cyflogi cynghorydd caffael yn ystod y flwyddyn ac wedi cymeradwyo polisi caffael wedi'i adnewyddu. Roedd yr holl archwiliadau mewnol yn ystod y flwyddyn wedi derbyn barn sicrwydd cadarnhaol.<br><br>**18.34.02 Datganiad Llywodraethu Corfforaethol**<br>Ar ôl ystyried adroddiad y Pwyllgor Archwilio a oedd wedi'i seilio ar adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol yn ogystal â llythyr rheoli'r Archwilydd Allanol, roedd yr aelodau'n gyffyrddus gyda chynnwys y datganiad llywodraethu corfforaethol.<br><br>Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith arwyddocaol yn darparu'r datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>(i) CYMERADWYO'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer 2017/18, yn cynnwys y datganiad llywodraethu corfforaethol, a CHYTUNO y dylai'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr sylwadau i'r archwilwyr.<br>(ii) NODI adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio.<br>(iii) NODI adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol 2017/18. | |
| **18.35** | **Adroddiad Blynyddol Sicrwydd Cynaliadwyedd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd Blynyddol Rhagfyr 2018 a thystiolaeth gefnogol.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Darparwyd y cefndir i gyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Cynaliadwyedd. Eglurwyd bod cyfrifo maint y cynaliadwyedd a'r incwm yn edrych ar arian parod gweithredol yn erbyn cyfanswm yr incwm; ac roedd hyn wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol fesul 7.5% (6.8% yn 2016/17) ac roedd y Brifysgol yn yr un amrediad â sefydliadau eraill yng Nghymru, sef rhwng 5% a 15%.<br><br>Bu'r aelodau'n ystyried y naratif yn erbyn pob un o'r datganiadau cynaliadwyedd, a'r rhai'n ymwneud â busnes gweithredol yn ogystal ag ystyried y datganiadau ariannol uchod. Penderfynodd y Bwrdd bod y Brifysgol yn parhau i fod yn fusnes gweithredol a chynaliadwy i'r dyfodol rhagweladwy.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYTUNO bod y Brifysgol yn parhau'n gynaliadwy i'r dyfodol rhagweladwy a CHYMERADWYO dirprwyo'r Cadeirydd i lofnodi'r Datganiad Sicrwydd Cynaliadwyedd ar ran y Bwrdd i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido. | |
| **18.36** | **Adroddiad gan y Panel Craffu Ansawdd a Safonau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Nodiadau, adroddiad ac argymhellion y Panel Craffu Ansawdd ac Adnoddau.<br>(ii) Diweddariad ynghylch gweithredu'r argymhellion yn deillio o adolygiad sicrwydd ansawdd peilot Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) Mehefin 2017.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd Panel Craffu Ansawdd a Safonau'r Bwrdd. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Panel wedi ailedrych ar ac ystyried yr adroddiadau a ddarparwyd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn yn ogystal â gweld adroddiadau'r Bwrdd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Academaidd yn ddiweddarach ar yr agenda, a nodwyd yng nghofnod 18.41; ac yr oedd yr aelodau wedi'u cymryd i ystyriaeth, yn ychwanegol at adroddiad y Panel, wrth ddod i'w casgliadau.<br><br>Cryfhawyd y Panel trwy ychwnaegu dau aelod newydd a chynhaliwyd proses drwyadl wrth graffu ar y dogfennau a ddarparwyd. Roedd y Panel wedi ystyried y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a wnaed yn 2017 ac wedi gwneud rhagor o argymhellion ar gyfer 2018/19.<br><br>Yn gyffredinol roedd y Panel yn cael yr ymdeimlad o ddiwylliant o wella a chyfoethogi parhaus ac roedd yn argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo llofnodi a chyflwyno'r pump datganiad sicrwydd ar gyfer 2017/18.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>CYMERADWYO cadarnhau'r pump datganiad sicrwydd ansawdd a safon a llofnodi'r datganiadau gan Gadeirydd y Bwrdd i'w cyflwyno i CCAUC.<br><br>CYTUNO i dderbyn yr argymhellion ar gyfer gwella a wnaed gan y Panel Craffu Ansawdd a Safon.<br><br>NODI cynnydd yr adroddiad argymhellion yn deillio o adolygiad sicrwydd ansawdd a safonau peilot CCAUC.<br><br>NODI'R adroddiadau a ddarparwyd gan y Bwrdd Academaidd fel rhan o'r sail tystiolaeth i gefnogi'r datganiadau sicrwydd. | |
| **18.37** | **Adolygiad Gwella Ansawdd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad Newid a Dadansoddiad Hunan Werthuso drafft.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Eglurodd y Dirprwy Is-ganghellor bwrpas yr Adroddiad Newid a'r Dadansoddiad Hunan Werthuso. Ers cyflwyno'r drafft i'r aelodau gwnaed gwaith arwyddocaol i fynd i'r afael â'r adborth a dderbyniwyd gan nifer o ffynonellau mewnol ac allanol, yn cynnwys y Cyngor Myfyrwyr.<br><br>Gan nodi fod angen i'r ddogfen fod yn werthusol ac yn adlewyrchu sefyllfa'r sefydliad, darparodd y Bwrdd gyngor cyffredinol a oedd yn cynnwys:<br><br>(i) Cydbwyso disgrifiadau'r cyfnod o ansicrwydd a newydd-deb cymharol y Tîm Gweithredol a'r Llywodraethwyr gyda sicrwydd am drosolwg a diogeledd parhaus yr ansawdd a'r safonau academaidd;<br>(ii) sicrhau nad yw 'newid' yn cael ei ddefnyddio yn amnewid am 'gyfoethogi', gan eu bod yn wahanol, a chryfhau'r thema gyfoethogi, yn cynnwys cyfeirio at y fframwaith cyfoethogi yn gynharach yn y ddogfen;<br>(iii) myfyrio ar amlder y cyfeiriadau at newydd-deb y polisïau a'r prosesau;<br>(iv) defnyddio tystiolaeth i ddangos sut yr ymdriniwyd â sefyllfaoedd heriol;<br>(v) dangos ymgysylltu gyda'r corff myfyrwyr yn ei gyfanrwydd ac nid yr Undeb Myfyrwyr yn unig;<br>(vi) sicrhau bod y ddogfen yn adlewyrchu trosolwg cydlynus yr ansawdd a'r safonau academaidd;<br>(vii) ystyried trefn yr adrannau i sicrhau llif y naratif.<br><br>Petai amser yn caniatáu, awgrymwyd y byddai rhestr o'r arconymau'n ddefnyddiol.<br><br>**Penderfynwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | CADARNHAU'r Adroddiad Newid a Dadansoddiad Hunan Werthuso drafft.<br><br>CYTUNO i ddirprwyo adolyguad drafft terfynol y dogfennau i aelodau'r Panel Craffu Ansawdd a Safonau trwy ei ddosbarthu iddynt. | |
| **18.38** | **Dogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Dogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu ddrafft.<br><br>**Adroddwyd:**<br>Adroddwyd bod cyflwyno'r Ddogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu wedi bod yn ofyniad blynyddol hyd yma, ac eleni roedd yn gofyn am wybodaeth ynghylch perfformiad 2017/18. Gan fod CCAUC yn adolygu parhad y Ddogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu, ni ofynnwyd am dargedau ar gyfer 2018/19.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'r Ddogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu ddrafft a CHYTUNO awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd GYMERADWYO'r fersiwn derfynol i'w chyflwyno i CCAUC. | |
| **18.39** | **Adroddiad Rheolaeth Ariannol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad rheolaeth ariannol Chwarter 1 (Awst – Hydref 2018)<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid yr adroddiad a'r rhesymau am y fformat newydd. Tynnwyd sylw at y pwyntiau a ganlyn:<br><br>(i) Roedd lefel y myfyrwyr yn dychwelyd wedi effeithio ar y gyllideb a byddai'n ofynnol gwneud peth arbedion yn ystod y flwyddyn i sicrhau gwarged, er bod y lefelau incwm a ragfynegwyd yn ddarbodus.<br>(ii) Roedd yr asedau sefydlog wedi cynyddu yn dilyn caffael Pentref Myfyrwyr Wrecsam, fel yr oedd y ddyled gyfatebol o ganlyniad i'r trefniant benthyciad.<br>(iii) Cynhwyswyd graff hylifedd newydd yn dangos y tri achlysur pan y byddai angen defnyddio'r cyfleuster cyfalaf gweithiol dros dro, er y byddai'r cyllid cyfalaf a dderbynir gan CCAUC yn cynorthwyo i leddfu'r lefel sy'n ofynnol nes ei fod wedi'i wario.<br>(iv) Cynhwyswyd y perfformiad yn erbyn cyfamodau benthyciadau ariannol yn yr adroddiad; roedd y cyfan wedi'u cyflawni ar gyfer y chwarter cyntaf a rhagfynegwyd y byddent yn cael eu cyflawni'n llawn yn ystod y flwyddyn lawn;<br>(v) Nid oedd unrhyw gyllid yng nghyswllt credydau rhan amser wedi'i ddychwelyd i CCAUC yn 2017/18; a nododd yr aelodau'r credydau sy'n weddill y mae angen eu cyflawni erbyn 31 Gorffennaf 2019.<br>(vi) Mae'r costau staff yn sefydlog, er fel canran o drosiant is a ragfynegwyd maent yn uwch;<br>(vii) Nodwyd y byddai ad-daliad arian parod £1m yn erbyn y benthyciad AIB yn ddyledus yn Awst 2019 pan fyddai gan y Brifysgol lefel uchel o arian parod; a byddai'r effaith yn cael ei weld yn lefelau arian parod 2019/20, yn ddarostyngedig i dderbynion cyfalaf.<br><br>Aeth yr aelodau ymlaen i drafod y lleihad yn y ddarpariaeth pensiwn a ragfynegwyd, wedi'i seilio ar newyddion dechreuol gan yr actiwriaid ynghylch y lefel debygol. Roedd yr aelodau'n wyliadwrus ynghylch gor-ddibynnu ar y lefel is yma o gofio'r risgiau y gallai newid, ochr yn ochr â'r angen i sicrhau lefel briodol o warged sy'n dangos gwella ar y blynyddoedd blaenorol. Nododd yr aelodau resymeg y Tîm Gweithredol ar | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfer y ddarpariaeth llog pensiwn diwygiedig a gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol barhaus i fontiro incwm yn ofalus, yn cynnwys unrhyw ddirywiad yn yr incwm recriwtio myfyrwyr yn erbyn y rhagfynegiad, adlewyrchu ar y targedau incwm a ragfynegir a pharhau i gadw rheolaeth llym dros y gwariant.<br><br>Croesawodd yr aelodau'r fformat cyflwyno newydd a gofynnwyd am nifer fechan o ddiwygiadau:<br><br>(i) Dylid symud y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i frig yr adroddiad gyda'r flwyddyn lawn a'r dyddiad wedi'u nodi yn ogystal â'r gwarged gweithredol a'r gwarged net yn yr un fformat â'r tablau'n dangos perfformiad yr is-gwmnïau;<br>(ii) Byddai'n ddefnyddio gweld costau staff cyfadran fel canran yr incwm, yn unol â'r modd y'i dangosir ar gyfer yr is-gwmnïau;<br>(iii) Addasu sut y cyflwynir y cyfamodau fel bod y gwir ddata a'r data rhagfynegi yn gliriach;<br>(iv) Cynyddu maint y tabl hylifedd fel ei fod yn haws i'w ddarllen a dangos effaith ad-daliad £1m y benthyciad AIB.<br>(v) Byddai'r aelodau'n ei chael yn ddefnyddio cael peth sylwadau wedi'u cynnwys yn y ceisiadau ymchwil sy'n cael eu cyflwyno a'r tebygolrwydd eu bod yn cael eu gwireddu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | **DE**<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**DE** |
| **18.40** | **Campws 2025** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad diweddariad ynghylch cynnydd Campws 2025.<br>(ii) Diagram camau'r gwaith arfaethedig<br>(iii) Y rhaglen gynnal a chadw gynlluniedig<br>(iv) Blaenoriaethu diagramau cam 0<br>(v) Fframwaith llywodraethu wedi'i diweddaru ar gyfer cymeradwyo prosiect Campws 2025<br><br>**Adroddwyd:**<br>Cymrwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a'r Cyfarwyddwr Cyllid sylw fod y £750k o gyllid cyfalaf ar gyfer Campws 2025 wedi'i dderbyn gan CCAUC a byddai'n cael ei wario erbyn 31 Gorffennaf 2019, Byddai achosion busnes ar gyfer pob un o'r prosiectau cyfalaf a nodwyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid ym mis Chwefror 2019. Rhagwelwyd y byddai'r prosiectau uwchraddio yn cael eu gwneud rhwng Mai a Gorffennaf 2019.<br><br>Mae Pwyllgor Cynllunio arbennig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gyfarfod yn y Flwyddyn Newydd a disgwylir y canlyniad erbyn diwedd Ionawr/dechrau Chwefror. Roedd y Brifysgol wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ar gais y Cyngor ynghylch priffyrdd, ecoleg a chadwraeth.<br><br>Roedd y cynigion a dderbyniwyd ar y tir dros ben nesaf at Bentref Myfyrwyr Wrecsam yn cael eu llunio'n derfynol a byddai papur ar yr opsiynau ac adroddiadau elusennau perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried ym mis Ionawr. Diweddarwyd yr aelodau ynghylch nodau'r Grŵp Partneriaeth Porth.<br><br>Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd i Gymdeithas Bel-droed Cymru gael les ar Barc y Glowyr a llofnodi'r cytundeb datblygu, roedd gwaith gwella wedi dechrau. Daeth i'r amlwg, er mwyn cefnogi'r cyfleusterau wedi'u gwella y byddai angen i Scottish Power | |

| | | |
|---|---|---|
| | leoli is-orsaf ar y safle. Nid oes unrhyw effaith sylweddol ar benderfyniad blaenorol y Bwrdd a dim cost i'r Brifysgol, ond bydd angen i barsel bychan o dir sydd eisoes wedi'i lesio i'r Gymdeithas Bel-droedd gael ei lesio i Scottish Power er mwyn lleoli'r is-orsaf yno. Roedd yr adroddiadau perthnasol yn cael eu comisiynu.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO cynnal cyfarfod arbennig y Bwrdd yn Ionawr 2019 i ystyried a gwneud penderfyniad ynghylch y tir dros ben nesaf at Bentref Myfyrwyr Wrecsam.<br><br>CYMERADWYO dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Bwrdd ystyried dogfennau perthnasol a llofnodi'r les 99 mlynedd i Scottish Power i leoli is-orsaf ar Barc y Gloywr. | |
| **18.41** | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| | **Adroddwyd:**<br>Adroddodd y Cadeirydd ei bod hi wedi bod yn bresennol mewn ystod o gyfarfodydd a digwyddiadau ar ran y Brifysgol ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Hydref, yn cynnwys rhoi cyflwyniad i ddirprwyaeth o Fietnam ynghylch llywodraethu mewn prifysgolion yng Nghymru a gynhaliwyd gan Brifysgolion Cymru ar 13 Tachwedd a chyngerdd y Cadoediad gan Gerddorfa Symffoni Wrecsam.<br><br>Bu'r ymweliad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 15 Tachwedd i weld yn uniongyrchol sut mae'r Brifysgol yn cyflawni ei chenhadaeth ddinesig yn llwyddiannus a roedd dyfnder ymgysylltu'r Brifysgol wedi gwneud argraff ar y Gweinidog. Roedd criw o lywodraethwyr wedi mwynhau taith o gwmpas a chyfarfodydd gyda staff y Gyfadran Gwyddorau Bywyd a Chymdeithasol ar 29 Tachwedd.<br><br>Atgoffwyd yr aelodau am ddyddiad y cyhoeddiad am Ganghellor newydd y Brifysgol a dyddiad sefydlu'r Canghellor newydd, sef hanner dydd ar 15 Chwefror.<br><br>Byddai'r Clerc yn cysylltu gyda llywodraethwyr ar ôl y cyfarfod ynghylch y dyddiad ar gyfer cyfarfod arbennig y Bwrdd ym mis Ionawr a'r diwrnod datblygu y cytunwyd arno o ganlyniad i adolygiad effeithiolrwydd y Bwrdd.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.42** | **Y Bwrdd Academaidd** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad materion a ystyriwyd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Academaidd ym mis Tachwedd 2018.<br>(ii) Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2017/18<br>(iii) Adroddiad Blynyddol Trosolwg Safonau 2017/18<br>(iv) Adroddiad Arolwg Arholwyr Allanol 2017/18<br>(v) Adroddiad blynyddol Cwynion gan Fyfyrwyr 2017/18<br>(vi) Adroddiad blynyddol ymddygiad myfyrwyr 2017/18<br>(vii) Cofrestr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol a'r gweithgareddau cyfredol<br>(viii) Adroddiad Canlyniadau Gradd Prifysgol Glyndŵr Wrecsam 2017/18<br>(ix) Adroddiad Arolwg Cyrchfan Gadawyr Addysg Uwch 2015/17<br>(x) Polisi Cyfoethogi ac Ymgysylltu Myfyrwyr mewn Sicrwydd Ansawdd<br><br>**Adroddwyd:** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Tynnodd yr Is-ganghellor sylw at bwyntiau allweddol o'r adroddiad yn cynnwys bod y Bwrdd Academaidd wedi cymeradwyo'r Polisi Cyfoethogi ac Ymgysylltu Myfyrwyr mewn Sicrwydd Ansawdd.<br><br>Bu trafodaeth hefyd ynghylch yr adroddiad canlyniadau gradd o gofio'r tueddiad cenedlaethol o ddyfarnu mwy o raddau dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uchaf. Roedd y Brifysgol wedi gweld cynnydd yn y dyfarniadau gradd lefel uwch hyn, ond roedd y cynnydd yn fach ac y tu ôl i'r cyfartaledd yn y sector. Roedd Pwyllgor Sefydlog y Deyrnas Unedig dros Ansawdd Asesu wedi lansio ymgynghoriad yn ddiweddar ar newidiadau arfaethedig i'r system ddosbarthu graddau yn y Deyrnas Unedig er mwyn ceisio cael meini prawf a systemau sgorio cyffredin i benderfynu ar ddosbarthiadau graddau terfynol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI adroddiad y Bwrdd Academaidd ac adroddiadau blynyddol cysylltiedig.<br><br>CYMERADWYO'r Adroddiad Blynyddol Uniondeb Ymchwil 2017/18 i'w gyhoeddi. | |
| **18.43** | **Risgiau Strategol Corfforaethol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Crynodeb o risgiau strategol corfforaethol y Brifysgol.<br>(ii) Y Gofrestr risg corfforaethol<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio sylw at, yn dilyn yr adolygiad gan y rheolwyr, bod dau risg wedi'u hailenwi i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol yn well, ac roedd y Pwyllgor wedi gofyn i'r rheolwyr adelwyrchu ar y risgiau yn ymwneud â dirnadaeth allanol negyddol ynghylch y sector Addysg Uwch yn sgîl sylw gan y cyfryngau i ffioedd dysgu, tâl uwch staff, gwerth am arian, chwyddiant graddau a'r cynnydd mewn cynigion diamod. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi awgrymu bod y rheolwyr yn cynnal peth profion straen ar nifer o wahanol sefyllfaoedd i benderfynu pa rai fyddai'n cael yr effaith negyddol mwyaf arwyddocaol ar y Brifysgol.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.44** | **Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Briffio ar gynnwys gylchlythyr CCAUC yn ymwneud ag Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2019.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.45** | **Defnyddio Sêl y Brifysgol** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Adroddiad ar ddefnyddio sêl y Brifysgol ers Gorffennaf 2018.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad. | |
| **18.46** | **Pwyllgorau'r Bwrdd** | |
| | **18.46.01 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2018. | |

(ii) Cynnig ac argymhelliad ynghylch les cae glas yng Nghampws Llaneurgain, yn cynnwys Adroddiad Elusennau.
(iii) Y Polisi Cyfraniadau a Chodi Arian yn Foesegol.

**Adroddwyd:**
Esboniwyd y cynnig a'r argymhelliad ynghylch y les cae glas ar Gampws Llaneurgain. Roedd y mast wedi'i leoli yno pan wnaeth y Brifysgol gaffael campws Llaneurgain ac roedd yn cymryd arwynebedd bach iawn. Nodwyd bod lletya mastiau, yn cynnwys y rhai ar ben adeiladau, yn medru cynhyrchu lefelau incwm rhesymol.

Nodwyd bod cymalau torri ac adolygiadau rhent wedi'u cynnwys yn y les, yn ogystal â'r gallu i gyflwyno hysbysiad o 12 mis ar ôl y pum mlynedd gyntaf, petai'r Brifysgol yn dymuno ailddatblygu safle Llaneurgain.

Gofynnodd yr aelodau, lle bo polisïau diwygiedig yn cael eu cyflwyno, bod y newidiadau o'u cymharu gyda'r gwreiddiol yn cael eu dangos.

**Penderfynwyd:**
NODI bod y cofnodion wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.

NODI adroddiad y Pwyllgor.

CYMERADWYO'r Polisi Cyfraniadau a Chodi Arian yn Foesegol.

CYMERADWYO rhoi les 25 mlynedd i Cornerstone Telecommunications Infrastructure Ltd a dirprwyo llofnodi a selio'r les i'r Cadeirydd ac un llywodraethwr arall.

**18.46.02 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol**

**Derbyniwyd:**
(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2018

**Adroddwyd:**
Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at y materion allweddol yn yr adroddiad, yn cynnwys bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i fonitro iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu gan Bwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd y tîm rheoli a byddent yn cael eu mapio yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol blaenorol gyda'r rhesymeg o ran parhau i ddefnyddio neu roi'r gorau i ddefnyddio pob un.

Roedd y dyddiad cau i ymateb i'r Arolwg Ymgysylltu gyda Staff wedi'i ymestyn i 7 Rhagfyr, gyda tharged o gyfradd cwblhau 70%.

**Penderfynwyd:**
NODI bod y cofnodion wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.

NODI adroddiad y cyfarfod.

**18.46.03 Y Pwyllgor Archwilio**

**Derbyniwyd:**
(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2018.

**Adroddwyd:**
Tynnodd y Cadeirydd sylw at faterion allweddol yn yr adroddiad, yn cynnwys y byddai angen i'r Brifysgol wahodd tendrau allanol am wasanaethau archwilio allanol yn ystod 2019.

| | | |
|---|---|---|
| | **Penderfynwyd:**<br>NODI bod y cofnodion wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.<br><br>NODI adroddiad y cyfarfod.<br><br>CYMERADWYO penodi KMPG fel archwilwyr allanol y Brifysgol yn 2018/19.<br><br>CYMERADWYO penodi RSM fel archwilwyr mewnol y Brifysgol yn 2018/19. | |
| **18.47** | **Monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad** | |
| | **Derbyniwyd:**<br>Papur yn gofyn am roi awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd gymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Cynllun Ffioedd a Mynediad (wedi'i ddosbarthu dan Unrhyw Fater Arall i'r aelodau ei ystyried).<br><br>**Adroddwyd:**<br>Tynnwyd sylw bod y Brifysgol wedi bod yn paratoi Datganiadau Monitro Blynyddol yn flynyddol ym mis Medi. Fodd bynnag, dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 y Datganiadau Monitro Blynyddol yn berthnasol i Gynllun Ffioedd a Mynediad 2017/18 fyddai'r cyntaf yr oedd yn ofynnol i'r Bwrdd eu llofnodi. Daeth i'r amlwg yn ddiweddar iawn mai'r dyddiad ar gyfer hyn fyddai canol Ionawr a disgwylir cylchlythyr CCAUC yn fuan.<br><br>**Penderfynwyd:**<br>NODI'R adroddiad.<br><br>CYMERADWYO awdurdod dirprwyedig i Gadeirydd y Bwrdd i adolygu a llofnodi'r Datganiadau Monitro Blynyddol yn dilyn craffu arnynt ac argymhelliad gan Fwrdd yr Is-ganghellor. | |